
# Llygad Barcud

## Cylchgrawn Cymdeithas Ted Breeze Jones



Cymdeithas Ted Breeze Jones

Rhifyn 36 - Gaeaf 2016/17

# GOLYGYDDOL

Mae hi'n Ddolig unwaith eto ac yn gyfle i werthfawrogi yr hwyl a gafwyd ac i edrych ymlaen i'r flwyddyn newydd.

Y mae amser, fel 'deryn, yn hedfan – onibai eich bod yn estrys â'i ben yn y tywod, hynny yw. Do, fe gawsom deithiau a chyfarfodydd difyr a llawer o hwyl yng nghwmni hoff gytûn ein gilydd. Y newid mwya' ddigwyddodd i Gymdeithas Ted yn y flwyddyn dd'wytha yw bod Brian wedi trosglwyddo awenau swydd y Trysorydd i Huw. Daliodd Brian y swydd hon o'r cychwyn pan sefydlwyd y Gymdeithas ym mis Hydref 2003 ac yr ydym yn ddiolchgar iawn iddo am ei waith trylwyr a chydwybodol dros y blynyddoedd (ceir mwy ar dudalen 13).

Ac am y dyfodol? 'Does ond un gair – 'Ymlaen!'

**Cynnwys:**


Hirgoes Gorllewin Awstralia *Alwyn Evans* ................................ 3
Yma am y tro cyntaf *Ieuan Bryn* ............................................ 6
Taith Pwllheli *Gareth Jones* .................................................. 8
Brian Paul ............................................................................ 17
Cudyllod Pen Llŷn *Gareth Jones* ........................................... 21
Taith Conwy *Twm Elias* ........................................................ *22*
Taith Moelfre *Twm Elias* .......................................................22
Gweithgareddau'r Gwanwyn a'r Haf .................................... 24


**Llun y clawr**: Glas y dorlan ym Mhwllheli (Tachwedd 2016 - Gareth Jones)

**Swyddogion**

**Llywyddion Anrhydeddus**: Iolo Williams + Annwen Breeze Jones
**Cadeirydd**: Twm Elias (twm.elias@outlook.com)
**Trysorydd:** Huw Dafydd
**Ysgrifennydd**: Gareth Jones, Bryn Eithin, Yr Ala, Pwllheli LL53 5BN, 01758 614470
**Golygyddion Llygad Barcud**: Twm Elias a Gareth Jones (pwllheli@gmail.com)
**Cyfeiriad cyswllt cyffredinol:** gwefeistr@cymdeithastedbreezejones.org.uk

Cynigir **10%** o ostyngiad i aelodau'r Gymdeithas yn siop **Cotswold, Betws y Coed**

Cyfrannwch i'n gwefan a chwiliwch drwy ôl-rifynnau Llygad Barcud

**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk**

Edrychwch ar yr holl luniau o'n teithiau ar-

**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk/lluniau.html**

# HIRGOES GORLLEWIN AWSTRALIA



Roedd yr erthyglau gan Twm am ei ymweliad ag Awstralia (*Llygad Barcud 32, 33 a 34*) yn arbennig o ddiddorol i mi. Bedair blynedd yn ôl bellach fe fues innau yn Awstralia fel Twm, a'i gyfeiriad at yr aderyn hirgoes ar yr Afon Frazier yn Queensland sydd wedi fy ysgogi i gyfrannu hyn o lith.

Yn wahanol iddo, yn y Gorllewin oeddwn i, ac ymweld fan honno â Llyn Ballard lle mae tua 36 o gerfluniau enwog gan Antony Gormley, a luniodd yr 'Angel of the North', yn sefyll yng nghanol gwastadeddau halen a mwd ('salt flats') y llyn.

Ym mis Mawrth 2012, roeddwn yng Ngorllewin Awstralia yn gwneud gwaith ymchwil am Gymro o'r enw George W. Hall, a ddatblygodd fwyngloddfa aur eithriadol, 'The Sons of Gwalia' yn Leonora. Mae'r fwyngloddfa tua 250 cilometr i'r gogledd o Kalgoorlie.

Ar ôl teithio yno gyda dau o ddisgynyddion yr arloeswr, dechreuais ar y daith yn ôl drwy dref angyfannedd Menzies. Gerllaw iddi mae Llyn Ballard, llyn sych hallt, lle mae tua 36 o gerflyniau metel gan Antony Gormley o'r trigolion brodorol, sy'n sefyll wedi eu gwasgaru ar draws anialwch dibendraw gwastadeddau halen y 'llyn'.



Wrth ymweld â Llyn Ballard darllenais stori arbennig o ddifyr ar hysbysfwrdd ger y fan, am aderyn go arbennig, a dyma

estyniad ar ei gynnwys.

**Seiclôn Bobby a'r Hirgoes torchog**

Dim ond ugain gwaith mewn 207 o flynyddoedd, pan fo seiclôn trofannol yn ddigon cryf i gyrraedd Gorllewin Awstralia, y bydd digon o law yn cwympo i lenwi'r llynnoedd heli yn y Gorllewin. Yn ystod y ddwy ganrif hynny, dim ond chwe gwaith a ddigwyddodd hyn yn Llyn Ballard, sy'n lyn enfawr tua hanner can cilometr sgwâr ger Menzies, mewn anialdir crinsych sydd o leiaf 450 cilometr o'r môr.



*Yr hirgoes torchog*

Pan oeddem ni yno, roedd y tymheredd dros 45˚C wrth i ni geisio cerdded dros gramen y mwd hallt i un o'r ynysoedd. Yn eithriadol, pan ddaw'r dilyw, mae'n llenwi'r llyn mewn amser byr, ac mae'r dyfroedd yn toddi'r halen i greu dŵr heli ar draws yr anghyfaneddau. Bryd hynny, yn sydyn, mae wyau'r corgimwch heli *(Parartemia zietziana sayce)*, a fu'n cysgu yn y mwd ers degawdau, yn deor yn eu triliynau.

Mae'r **hirgoes torchog** – *(Cladorhynchus leucocephalus)* neu'r 'banded stilt' – yn aderyn rhydyddol arfordirol yn Awstralia sy'n cael ei enw oherwydd stribyn neu fand coch-frown ar ei frest yn ystod y cyfnod bridio. Nid oes marciau clir cyffelyb ar adar ifainc, na'r adar niferus hynny nad ydynt yn paru. Un o brif nodweddion yr adar hyn yw eu bod yn casglu at ei gilydd mewn nythfeydd, ac yn sefydlu 'crêches' neu feithrinfeydd i'w cywion, gydag ychydig ohonynt yn eu gwarchod fel rhyw hen 'fodrabedd'. Y nodwedd eithriadol arall yw mai anfynych iawn mae poblogaethau'r adar hyn yn newid, oherwydd nad yw'r amodau bridio ond yn digwydd pan fo'r *Parartemia* ar gael i'w bwydo mewn llynnoedd heli, ac mae nifer fawr o adar nad ydynt byth yn cenhedlu.

Adeg y seiclonau trofannol mawr, sy'n digwydd yn weddol anfynych, mae'r hirgoesiaid torchog rhywsut yn sylweddoli bod amodau perffaith ar eu cyfer, ymhell ar draws y anialwch yn y tir crasboeth o gwmpas Llyn Ballard. Bryd hynny byddant yn hedfan yno yn eu degau o filoedd, o bob rhan o arfordir Gorllewin Awstralia lle byddant yn treulio'u bywydau'n arferol.

Yr adeg ddiwethaf i hyn ddigwydd oedd yn Chwefror-Mawrth 1995 – a hwn oedd y digwyddiad cyntaf a gofnodwyd yn fanwl gan adarwyr. O fewn tridiau wedi i'r glaw beidio, roedd y nifer a nythodd ar yr ynysoedd yn y dŵr heli bâs wedi cynyddu i 4,500, a mwy o adar yn cyrraedd bob munud. Amcangyfrifir i 70,000 o'r boblogaeth fridio o 50,000 pâr yn Awstralia wneud y daith, gan deithio hyd at fil o gilometrau o'r Gogledd Orllewin – y daith fyrraf fyddai 450 cilometr!

Erbyn i'r adarwyr gyrraedd yno, roedd y sefyllfa ar y ddwy ynys – yr unig rai o'r nifer fawr o gwmpas y llyn lle'r dewisiai'r holl adar sefydlu eu nythfa – yn fwrlwm gwyllt. Roedd miloedd o'r adar yn cymharu, yn ymladd dros fannau nythu a'u hamddiffyn, a hyn oll mewn tymheredd o dros 40˚C. Roeddent yn bwydo ar y corgimychiaid, oedd yn berwi fel rhyw gawl byw drwy'r dŵr ac yn dodwy eu hwyau'n ddibendraw i warchod eu rhywogaeth rhag y sychder i ddod.

Wrth i'r cywion a ddeorodd gyntaf gyrraedd min y llyn gyda'u rhieni, roedd nifer o'r oedolion eraill oedd heb nythu eto yn ymosod arnynt, gan sathru arnynt a'u pigo, gyda'u rhieni'n ceisio eu harbed. Ond o fewn ychydig, roedd nifer o'r cywion wedi dod at ei gilydd a ffurfio rafftiau ar y dŵr, lle gellid eu hamddiffyn. Yna byddai rhai o'r rheini a'r 'modrabedd' yn eu goruchwylio tra bod y gweddill o'r adar yn ceisio mwy o fwyd.

Wedi'r ymchwydd enfawr hon mewn poblogaeth, ni ddigwyddodd unrhyw beth cyffelyb ers hynny, ac fe sefydlogodd y boblogaeth unwaith eto, gan ymaros y seiclon mawr nesaf.

Wrth i ninnau'n tri gerdded ar draws y mwd a dringo i gopa'r ynys i syllu ar y cerfluniau haearn o'r brodorion wedi eu gwasgaru ar hyd a lled pellafoedd y llyn, roedd yn anodd iawn dychmygu sut y bu hi yno, union ddwy flynedd ar hugain ynghynt.

Cofnodir y digwyddiad anhygoel hwn mewn rhaglen ddogfen gan yr Australian Broadcasting Corporation, sef '**Bobby and the Banded Stilts'**. Mae'n werth ei gweld, os gallwch ei darganfod yn rhywle! Ond gallwch wrando ar ychydig ohoni ar:

http://lakeballard.com/wp-content/uploads/2013/10/Bobby-and-the-Banded-Stilts.m4a

**Alwyn Evans, Caerdydd**

[Yn *Llygad Barcud* 34 cyfeirio yr oedd Twm Elias at yr hirgoes adeinddu *(Himantopus himantopus)* sydd yn aderyn eang iawn ei ddosbarthiad drwy'r byd. Ceir amryw o is-rywogaethau ac mae'r math welais i yn Awstralia i'w gael hefyd yn Indonesia a Seland Newydd. Ceir is-rywogaeth arall yn Ewrop, Affrica ac Asia – llwyddodd pâr o'r math hwn i nythu yn ne Lloegr yn 2014. Ceir is-rywogaethau eraill, un yn ne America a'r llall yng ngogledd a chanolbarth America. Mae'r hirgoes torchog y sonia Alwyn amdano yn llawer iawn prinach ac yn gyfyngedig i dde a de-orllewin Awstralia. Gol.]

## YMA AM Y TRO CYNTAF

Eleni, nid aderyn prin ond un o greaduriaid trawiadol y môr oedd y peth mwyaf annisgwyl a welodd y criw ohonom fydd yn ei throi hi am Enlli bob hydref i fwynhau adar, creaduriaid y môr, gloÿnnod byw a gwyfynod. **Crwban môr cefn lledr** (tua chwe troedfedd o hyd) oedd yr anghenfil a'n synnodd ni. O'r pum crwban môr a welir o bryd i'w gilydd yn ein cornel ni o'r blaned, mae'r crwban cefn lledr yn unigryw am ei fod o, pan fydd angen, yn gallu codi tymheredd ei gorff yn uwch na thymheredd ei amgylchedd, a thrwy hynny'n gallu goroesi mewn dyfroedd oerach nag y gall y crwbanod eraill.

Dyma'r crwban môr mwyaf yn y byd, a bydd yn mudo i'n moroedd ni yn ystod misoedd yr haf i fwydo ar sglefrod môr. Mae ei ddosbarthiad yn eang – o Alasga a Norwy yn y gogledd i Benrhyn Agulhas yn Affrica, a Seland Newydd yn y de. Cafodd un ei olchi i'r lan ar draeth Harlech ym Medi 1988, ac ar y pryd, credid bod hwnnw'n 100 mlwydd oed. Cafodd ei gludo i'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd ac mae'n cael ei arddangos yno hyd heddiw.



*Crwban Harlech - 1988*

O ran adar anghyffredin, mae'n debyg mai'r **telor aur** *(Hippolais icterina)* oedd y prinnaf a welsom – hen gena bach am guddio am oriau, cyn dod i'r golwg a dechrau chwarae mig eto. Yn dynn ar ei sodlau yn y categori 'anghyffredin', roedd y **telor pêr** *(Hippolais polyglotta)* a ddaliwyd yn rhwydi'r Wylfa Adar ger Cristin. Ond y mwyaf deniadol, heb os nac onibai, oedd y **pengam** *(Jynx torquilla)* a dwtiai ei blu yn yr heulwen ar bostyn wrth goedwig Nant. Yn wir, roedd yna dri o'r rhain ar yr ynys un prynhawn. Mae patrymau cain eu plu yn rhyfeddod.

Daeth clywed y **tylluanod bach** yn hewian yn ystod y dydd a liw nos yn ddigwyddiad eithaf cyffredin, ac ar noson olau leuad braf, aeth un neu ddau ohonom i chwilio am gywion **adar drycin Manaw**, a chael modd i fyw yn gwylio staff yr Wylfa Adar yn modrwyo deuddeg ohonyn nhw oedd bron yn barod i hedfan am y tro cyntaf o Enlli hyd at arfordir yr Ariannin.

Ymysg yr adar eraill a welsom yn ystod yr wythnos, roedd y **brain coesgoch** afieithus, **hebogiaid tramor** a **chudyll coch, ceiliog gwalch glas** yn mynd din dros ben yn yr awyr wrth ddangos ei hun i'w gymar, amryw o **ddrywod eurben**, un **gwybedog brith**, deugain **siglen wen** ar draeth Solfach a bron i gant o **linosiaid** yn codi fel un gŵr, chwe **creyr glas** yn hedfan gyda'i gilydd heibio'r Cafn ac ar draws y bae, sawl **hugan** agos a thrawiadol, **cors-wennol ddu**, mwy nag un **sgiwen fawr**, dwy sgiwen y Gogledd, haid sylweddol o **ylfinirod**, ac un **coegylfinir** a'i bum

chwibaniad yn hollol gyfareddol.

Ar ôl dychwelyd i'r tir mawr am oddeutu pythefnos, dyma gael si bod yna **delor bacsiog** *(Iduna caligata)* ar Ben y Gogarth. Er fod yna gofnodion prin iawn i'r rhywogaeth gael ei gweld ar Enlli ac ar Ynysoedd Sgomer a Sgogwm, doedd yna yr un cofnod iddi gael ei gweld erioed ar dir mawr Cymru.



*Tylluan fach*

Felly i ffwrdd â ni am Landudno, ond yn lle mynd yn syth i gopa'r Gogarth, penderfynwyd oedi wrth yr hen fwyngloddiau copor. Yno, roedd yna geiliog **tingoch du** yn eistedd yn llawn amynedd ar y ffens sy'n amgylchynu'r mwyngloddiau, a bob hyn a hyn, byddai'n dod i lawr o'i wylfa i hel ei damaid ar y ddaear cyn mynd yn ôl i'r un safle gwylio yn union.

Ar ôl parcio'r car ar y copa, a cherdded ychydig lathenni at yr adarwyr oedd yno eisoes, ni fu hi erioed yn haws gweld aderyn mor brin! Mae'n wir iddo sgathru i ganol twmpath eithin wrth i ni gyrraedd, a gwardio yno am bron hanner awr, ond daeth i'r golwg eto wrth fôn un o'r twmpathau, gan hopian yn fân ac yn fuan yn y glaswellt. Roedd ei frest ac oddi tano'n olau iawn, a byddai'n rhoi fflic sydyn i'w gynffon bob yn ail â pheidio.

Rhyfedd oedd gweld telor yn treulio cymaint o amser ar y ddaear ac yn symud mor debyg i dinwen y garn, ond telor yn sicr ydoedd ac roedd y rhesen olau uwchben y llygaid yn cadarnhau mai telor bacsiog, yn hytrach na thelor Syke, oedd hwn. O Rwsia, yn ôl pob tebyg, yr oedd wedi hedfan, ac roedd y gwyntoedd dwyreiniol ystyfnig wedi'i yrru oddi ar y trywydd cywir wrth iddo fwriadu gaeafu yn yr India.

Daeth y bychan i'r golwg am ysbeidiau hir tra'r oedden ni yno. Cawsom olwg ddigamsyniol arno, a digon o gyfle i'w groesawu i dir mawr Cymru am y tro cyntaf erioed.

Ond diflannu'n raddol yr oedd haul gloyw'r bore, ac nid oedd Pen y Gogarth mewn dwyreinwynt yn lle i fagu gwaed. I lawr â ni, felly, am Forfa Conwy lle'r oedd yna olygfa anghyffredin iawn yn ein haros.

Yn bwydo'n ddyfal yng nghysgod pentref Llansanffraid ar lannau'r aber, roedd yna CHWECH o **grëyrod mawr gwyn** gyda'i gilydd, a nifer fawr o **grëyrod bach** o'u cwmpas. A'r chwech mawr gwyn yn ein hatgoffa'n iasol braidd am y CHWE crëyr glas yr oedden ni wedi'u gweld, bythefnos ynghynt, yn hedfan gyda'i gilydd heibio'r Cafn wrth i ni adael Enlli!

**Ieuan Bryn**




Fe fu tair blynedd ers i’r Gymdeithas drefnu taith yn ardal Pwllheli. Ers hynny y mae dros £8M wedi ei wario ar adeiladu academi hwylio yn y marina, mewn adeilad a elwir yn Plas Heli (i).

Golygodd hyn bod angen creu angorfa newydd yn y man ble y mae afonydd Rhyd-Hir ac Erch yn cyfarfod cyn mynd i’r môr (ii). Er mwyn gwneud hyn yr oedd yn rhaid cloddio i greu mwy o ddyfnder dŵr ar gyfer y cychod hwylio mawr a sianel iddynt allu mynd i mewn ac allan, beth bynnag fo cyflwr y llanw. Ac y mae cloddio wrth gwrs yn golygu cael rhywle i roi y miloedd ar filoedd o dunelli o fwd a cherrig mân a godir o wely’r afon.

Yr hyn a wnaed ym Mhwllheli oedd llenwi un ochr i’r trwyn sy’n gwthio i mewn i’r harbwr o ochr y Cob (o’r gorllewin) gan uno y rhan fwyaf o’r trwyn efo stâd tai Morfa’r Garreg. Yr oeddent wedyn yn sugno dŵr, mwd, clai a cherrig o’r angorfa a’i ollwng mewn lagŵn (iii) ble yr oedd y gwaddod yn gwaelodi cyn rhedeg i mewn i lagŵn arall (iv), cyn ei ddychwelyd i’r môr.

A’r gwaith wedi ei orffen ers rhyw ddwy flynedd, y mae lagŵn (iii) bron yn llawn ond fe adawyd pwll go fawr ac y mae hwn yn ffefryn gyda’r adar tra’n aros i’r llanw fynd allan ac i’r mwd ffrwythlon yn yr harbwr ddod i’r golwg. I’w wneud yn well safle byth ar gyfer adar, y mae ffens uchel o gwmpas y safle ac felly nid yw pobl a’u cŵn yn gallu mynd yno i darfu arnynt. Mae yn le delfrydol iddynt orffwys a bwydo felly.

Gan fod y llanw yn eithaf uchel pan wnaethom ymgynnull ar gyfer ein taith, fe gychwyn’som drwy fynd at y ddau bwll er mwyn gweld os oedd rhywbeth diddorol yno. Fel y nodais, y mae y rhain fel arfer yn rhai diddorol iawn ar benllanw, ond ar y diwrnod hwn, nid oedd mwy nac ychydig chwiwellod a

phibyddion y mawn i'w gweld yno. Pan fuodd Gwennan a minnau yno ynghynt yn yr wythnos yr oedd llawer mwy o amrywiaeth yno ac fe gawsom sioe arbennig - wrth i ni edrych ar bibyddion y mawn oedd yn ymyl y ffens clywsom sŵn aflafar yn dod o gornel bellaf y pwll a'r hwyaid i gyd yn codi. Beth oedd yn hedfan uwch ein pennau oedd hebog tramor! Diddorol oedd cael y fath sioe mor agos i ganol y dref fel hyn. Ond ta waeth, fel y gwelir bob amser, ar ddiwrnod y daith, 'doedd fawr ddim o ddiddordeb yn y pwll hwn. Aethom ymlaen felly ac o gwmpas y trwyn ac erbyn hynny yr oedd y mwd yn dŵad i'r golwg – a phethau'n dechrau prysuro.



*Bilidowcar*

Yn yr harbwr y mae pontŵns ar gyfer y llongau, ond y mae rhai yn angori ar fŵi – ond yr oedd yn amlwg nad y llongau yn unig oedd yn manteisio ar y bŵis hyn.

Ar ochr dde y trwyn y mae traeth bach ac yno yr oedd nifer o **hwyaid yr eithin** a **gwylanod penddu** (er fod y pen du wedi hen gilio erbyn hyn). Yr oedd yno hefyd dri **crëyr bach** – aderyn prin iawn rai blynyddoedd yn ôl, ond un sydd bellach wedi hen sefydlu yma. Maent i'w gweld yn yr harbwr yn rheolaidd - ond nid yn yr un rhifau ac a welir ym Mhorthmadog. Ar y traeth bach hwn hefyd y cawsom ein golwg agosaf ar **goesgoch**.



*Coesgoch*

Erbyn i ni droi yn ôl am y dref yr oedd y llanw wedi troi go iawn ac yr oedd y mwd yn dod i'r golwg – ac felly yr oedd llawer o adar i'w gweld. Y rhai mwyaf niferus oedd **pibyddion y mawn** – yno yn eu degau yn pigo ar hyd ochrau'r ffosydd oedd yn ymddangos ar draws y mwd. Yno efo nhw yr oedd y **rhostog cynffon-ddu,** y **coesgoch** a'r **gylfinir.**



*Mae'r llun hwn yn dangos maint cymharol y gylfinir, coesgoch a'r rhostog cynffon-ddu*



*Rhostog cynffon-ddu*

Ar ôl cael cryn bleser yn gwylio'r adar yma, draw a ni wedyn gan groesi y Cob at yr hyn a elwir yn Harbwr Mewnol. Bu cryn ddadlau am y llecyn hwn rhyw ddwy flynedd yn ôl. Dadleuai llawer o'r trigolion cyfagos y dylid clirio y pwll er mwyn lleihau y perygl o lifogydd, ond darganfu Cyfoeth Naturiol fod y planhigyn prin – y Lleidlys Cymreig (*Limosella australis*) yn tyfu yno a bu'n rhaid oedi a chymryd camrau arbennig i ddiogelu y planhigyn.

Yma yn y pwll, yr oedd llawer o adar- chwiwellod, **cor-hwyaid, iâr ddŵr**, gylfinir, gwylanod penddu yn prysur fanteisio ar yr hyn oedd i'w gael cyn i'r dorau gau unwaith eto a'r afon yn codi a chuddio'r cwbl. 'Doedd presenoldeb pobl yn cerdded yn eithaf agos yn poeni dim arnynt.

Wrth i ni agosáu at y dorau fe weiddodd JP "*Dacw fo!*" – yr oedd John a'i lygaid craff wedi gweld **glas y dorlan** lliwgar yn cuddio yn yr hesg llwytaidd ar ochr arall y pwll. Yr oedd pawb wedi gwirioni ac fe gawsom ddigon o amser i'w astudio



*Glas y dorlan*

yn iawn ac i'w weld yn plymio i'r pwll i ôl ei ginio. Dyma yn sicr oedd uchafbwynt y diwrnod.

Croesi wedyn a chychwyn ar hyd Cei'r Gogledd. Yng ngheg Afon Rhyd-Hir, fe gawsom sioe dda iawn gan dair **hwyaden ddanheddog** oedd ym mynd i lawr am y môr.



*Dwy hwyaden ddanheddog*

Yr oedd yno nifer o **elyrch** wrth gwrs ac erbyn hynny yr oedd crëyr glas wedi dewis ei fan i sefyll fel soldiwr i aros am ei bryd nesaf.

Wrth ben draw y Cei, yr oedd nifer o **golomennod** yn gorffwys dan y bont, ond 'doedd dim gorffwys yn ein crwyn ni! Ymlaen â ni, heibio Plas Heli ac i Draeth Glandon.

Yno fe welsom nifer o **gwtiaid torchog** a **chwtiaid y traeth** er eu bod braidd yn bell.

Yn ôl a ni felly ar hyd Cei'r Gogledd tua Pencob – ac yr oedd y glas y dorlan yn dal yno! Sioe ardderchog arall felly a neb am gychwyn am adref.

Soniodd rhywun bod **siglen lwyd** i'w gweld, ond pwy oedd eisiau gweld aderyn mor ddinod a hwnnw pan fod glas y dorlan yno! (Diolch byth, fe gafodd Huw lun o'r siglen ac felly chefais i ddim colled!)





*Siglen lwyd*

Yn y diwedd, yr oedd ein boliau yn galw ac nid oedd hyd yn oed sioe y glas y dorlan yn ddigon i'n cadw, felly aethom draw i fwynhau teisen a phaned.


**Gareth Jones**

Lluniau: Gareth a Huw Dafydd

**A ydych eisiau gwybod yr enw Cymraeg am unrhyw un o adar y byd?**
Y mae Cymdeithas Ted ynghyd â Llên Natur wedi noddi y gwaith o ddarparu cyfieithiad o'r holl enwau ac y maent ar gael ar y wê. Ewch i'r wefan isod a rhowch enw Saesneg yr aderyn ac fe gewch yr enw Cymraeg ynghyd a chyswllt i erthygl Gymraeg amdano ar Wicipedia.

**www.tinyurl.com/z97a3f9**

## DIOLCH YN FAWR IAWN, BRIAN



Yn y gynhadledd, fe gafwyd cyfle i ddatgan ein diolch i Brian Paul am ei waith fel Trysorydd ers sefydlu y Gymdeithas.

Cyflwynodd Twm docyn llyfr a thystysgrif iddo am ei waith diwyd, manwl a chydwybodol. Brian sydd wedi bod yn gyfrifol am gadw trefn ar yr aelodaeth ac am sicrhau bod pawb yn derbyn Llygad Barcud yn rheolaidd – yn ogystal a sicrhau bod sail ariannol gadarn i'r Gymdeithas.

Er ei fod yn rhoi'r gorau i fod yn drysorydd, bydd ei ddiddordeb yn y Gymdeithas yn parhau a bydd yn aelod o'r pwyllgor.

Y Trysorydd newydd yw Huw Dafydd a'r Ysgrifennydd yw Gareth Jones.

Haedda'n clod fel aelodau – am ei rôl
Yn ymroi i'r 'llyfrau',
Yn ddoeth, drwy'r blwyddi'n ddi-au
Gwiriodd yr holl ffigyrau.

*Huw Dafydd*

**Alpacas yn gwarchod Tyrcwn**



Arferai Tom Copas, ffarmwr tyrcwn o Berkshire golli cannoedd o'r adar gwerthfawr i lwynogod bob blwyddyn. Mae'n magu ryw 24,000 ar gyfer y farchnad 'Dolig yn flynyddol ac er gwaetha rhoi ffens drydan rownd y cae enfawr lle mae'r twrcwn yn crwydro, roedd yn dal i gael colledion. Hynny yw, tan 'leni. Dyma pryd y dechreuodd gadw pac o Alpacas i bori yn y cae efo'r adar.

Roedd wedi clywed bod Alpacas mewn gwledydd ar draws y byd yn cadw llwynogod a jacals draw. Felly dyma roi cynnig arni ac roedd yr Alpacas yn llwyddiant ysgubol – ni chollwyd yr un gobliwr. Mae Alpacas yn diriogaethol iawn ac am fod llwynogod de America yn lladd rhai o'u mynnod ifanc, mae Alpacas yn casáu llwynogod ac yn ymosod arnyn nhw.

## CUDYLLOD PEN LLŶN – DIWEDDARIAD

Yn rhifyn **34** o Lygad Barcud, fe wnaethom adrodd hanes pâr o gudyllod coch a fu yn nythu ar un o glogwyni **gogleddol** Pen Llŷn ers nifer o flynyddoedd – a gorffennwyd yr adroddiad mewn tristwch drwy adrodd i'r nyth fethu y llynedd.

Eleni, fu fuom yn cadw llygad ar y safle unwaith eto ond 'doedd dim golwg o'r cudyllod yn agos at y man nythu.



Yr ydym hefyd yn hoff iawn o gerdded uwchben clogwyni **deheuol** Pen Llŷn, ac y mae un safle ble'r ydym yn aml wedi bod yn gweld cudyllod. Un arall sy'n hoff iawn o'r ardal honno yw Anet Thomas, ac fe ŵyr hi'n iawn am ein diddordeb yn yr adar. Ym mis Awst 2015, fe adroddodd wrthym iddi ddod o hyd i gorff cyw cudyll coch yn yr ardal ble'r oeddem yn amau bod nyth. 'Doedd dim amdani felly ond cadw llygad manwl ar yr ardal honno yn ystod gwanwyn 2016.

Ond yr oedd problem. Nid oedd yr ardal hanner mor gyfleus – yn arbennig i dynnwr lluniau! Yr oedd ar silff ar glogwyn uchel gyda rhedyn yn tyfu ymhobman, a thonnau gwyllt y môr yn rhuo oddi tanddo.

Buom yn gwylio'r ardal drwy fis Ebrill a gweld bod y cudyll o gwmpas. Ym mis Mai yr oedd yr aderyn yn fwy sefydlog, fel y disgwylid yn ystod amser nythu – ond yr oedd bron yn amhosib gweld ble'n union yr oedd y nyth. Ond yna, yn nechrau Mehefin daethom o hyd i'r union fan ac wrth ddewis mynd yno pan oedd y llanw ar drai yr oedd yn bosib mynd ychydig yn agosach i'r nyth oddi ar y cerrig sydd wrth droed y clogwyn. I gael llun, yr oedd yn rhaid sicrhau bod yr haul wedi dod i'r golwg dros ochr y clogwyn a bod y llanw allan - felly tipyn o niwsans! Ar ben hynny, yr oedd dechrau Mehefin yn hwyr yn y cyfnod nythu – ni fyddai llawer cyn y byddai y cywion yn gadael y nyth.



Ar ôl nifer fawr o ymweliadau, dechreusom weld y rhieni yn bwydo y cywion. Mae'r llun hwn yn dangos y ceiliog yn paratoi llygoden y mae wedi dod â hi ar gyfer y cywion.

Fe ddaeth John Parry, Dewi a Dan atom unwaith a - gyda sgôp

gryf JP, yr oeddem yn gallu gweld bod y cywion yn tyfu'n prysur dyfu a bod tri ohonynt.



Ymhen ychydig ddyddiau, daeth Ieuan Bryn atom a chawsom sioe gofiadwy. Erbyn hynny, yr oedd y cywion yn mentro o'r nyth (ar droed) ac yn swnian yn ddi-baid am i'r rhieni ddod a bwyd iddynt. Yn sydyn, fe newidiodd y gri a daeth cynnwrf mawr dros y cywion. Beth oedd yn hedfan uwchben ond hebog tramor. Ond fe ddaeth y fam o rywle ac fe heriodd yr hebog i ffwrdd.



Y diwrnod canlynol daethom yn ôl gydag Anet a Haf – ond yr oedd y nyth yn wag. Yr oedd y cywion wedi gadael y nyth. Yn haul cynnes Pen Llŷn, cawsom awr berffaith yn gorwedd ar y creigiau yn gwylio y tri cyw a'u rhieni yn hela wrth ein pennau. Sioe bythgofiadwy.

Mae'r llun ar y chwith yn dangos y fam yn bwydo un o'r cywion. Yn ôl Duncan Brown, y lindysyn sydd ganddi yw yr **ymerawdwr** (Pavonia pavonia).

Mae'r llun nesaf yn dangos un o'r cywion yn feistr ar yr awyr, a hynny ar ei ddiwrnod cyntaf ar yr adain. Gellir gweld plu yr "adain ffug" yr **alula** tua hanner ffordd ar hyd yr adain. Yr un yw swyddogaeth yr alula mewn aderyn a'r slats sy'n dod allan ar adenydd awyren wrth iddi arafu i lanio.



Ar ôl y diwrnod byth-gofiadwy hwn, fe wnaethom ddal i weld y cywion o gwmpas y nyth am rhyw bythefnos, gan fynd ymhellach bob dydd, ond yn dal i aros gyda'i gilydd. Yr oeddent yn hela rhywfaint eu hunain ond hefyd yn cael eu bwydo gan y rhieni.

Tybed beth ddigwyddodd i'r cywion ers hynny? Yr ydym yn dal i weld y rhieni o gwmpas, ond y mae'r cywion wedi mynd.

Cafwyd ateb posib yn ddiweddar. Fis Awst 2015, fe wnaeth **Tony Cross** fodrwyo cywion cudyllod yng ngogledd Sir Fôn.

Ym mis Hydref eleni, cafodd neges bod un ohonynt wedi ei ddal gan fodrwywyr yng ngogledd **Sbaen**. Mae'n amlwg bod o leiaf rhai o'r adar yn ymfudo ymhellach o lawer nac y byddai neb wedi ei ddisgwyl.



*Tony Cross yn modrwyo cyw cudyll coch*



**Gareth Jones**

**Y gynffon sidan**

Heb os, mae'r gynffon sidan yn un o adar mudol prydferthaf a mwyaf eiconig y gaeaf. 'Chawn ni ddim cyfle i'w gweld nhw bob gaeaf am fod yna ddigon o fwyd iddyn nhw yn eu mannau gaeafu arferol. Mae eleni'n flwyddyn arbennig o dda i'w gweld nhw yng Nghymru. Mae yna gannoedd wedi mudo o Sgandinafia a glanio mewn sawl rhan o Brydain, ac yn barod, mi gawson nhw eu gweld yn Llansanffraid (Conwy), wrth Llyn Bach ym Mhorthmadog, ym Mhenisa'r waun ger Caernarfon, ym Modelwyddan, yn Llysfaen (Conwy), ac yn Llanelwy… Gwyliwch allan amdanyn nhw.

Os ydach chi'n ddigon lwcus, hwyrach y cewch chi haid o 30 neu hyd yn oed 150 ohonyn nhw yn eich gardd! Cadwch olwg ar y coed criafol a'r llwyni aeron; maen nhw'n gwirioni ar aeron cochion. Peidiwch â'u colli nhw; maen nhw'n ddigon o ryfeddod!



*Cynffon sidan*
*Andreas Trepte (Wicipedia)*

**Ieuan Bryn**

## TAITH CONWY, Tachwedd 19eg



Mae bob amser yn bleser ymweld â chanolfan yr RSPB yng Nghonwy. Mae'n safle wych, gyda'i phyllau pwrpasol, ei chuddfannau bendigedig, Eryri a'r afon Conwy yn gefndir ac, wrth gwrs, y caffi a'r siop. Heddiw roedd hi'n fendigedig yma, rhyw awel ron' bach yn oer efallai ond roedd pawb wedi lapio ac yn gyfforddus. Roedd hi'n heulog braf a lliwiau'r hydref ar y coedydd uwchben tref Conwy yn rhyfeddol.

Heb fod yma ers 2-3 mlynedd, sylwi, wrth gychwyn ar ein taith, fod y clytwaith o gynefinoedd sy'n rhan o'r warchodfa wedi aeddfedu'n rhyfeddol o dda. Eitha' agored a llwm oedd hi am y 10 mlynedd cyntaf wedi iddi agor yn 1995 ond bellach mae angen cadw rheolaeth ar y llwyni helyg, y cyrs yn y pyllau, a'r borfa rhag iddynt or-dyfu. Roedd criw o ferlod mynydd yma i gadw'r porfeydd dan reolaeth ac olion ambell wningen lle roedd y borfa'n fyrrach. Does dim gwell na merlod a gwningod i greu clytwaith o fân gynefinoedd. Rhaid inni ddŵad yma eto yn yr haf i weld y cyfoeth o flodau a ieir bach yr haf fydd yma bryd hynny, ac adar y tymor hwnnw wrth gwrs.



*Crëyr bach*

Drwy ffenestri mawr cuddfan y caffi roedd **crëyr gwyn bach** a **chrëyr glas** wrth y pwll, amryw o **goes-gochiaid** – un ohonynt yn nofio ar draws y dŵr – a **chudyll coch** yn hofran uwchben. Dim golwg,

gwaetha'r modd, o'r ddau grëyr gwyn mawr fu o gwmpas yma ers sbel ac a welwyd ryw 'chydig funudau cyn i ni gyrraedd! Hanner dwsin o **ieir dŵr** yn hedfan i mewn efo'i gilydd. Ond pan gododd y cyfan – roedd rhywbeth wedi eu dychryn – i ffwrdd yr aethom ninnau hefyd.



*Iâr ddŵr*

"Glysoch chi'r **telor Cetti** 'na?" meddai Haf. Amryw wedi clywed y tic-tician o'r helyg ond wedi ei gamgymryd am robin goch neu ryw diciwr arall. Adar yr haf ydy'r teloriaid fel arfer heblaw am y Cetti, sy' newydd sefydlu yng ngogledd Nghymru yn yr ugain mlynedd diwetha', gyda nifer fechan yn gaeafu yma. Mae'r telor penddu un arall sy' wedi penderfynu gaeafu yma yn hytrach na'i heglu hi (neu ei hadeinio hi!) am Affrica bob hydref, ond welsom ni'r un yma y tro hwn. Roedd 'na nico ar frig yr helyg hefyd ac ambell dderyn du a llwyd y gwrych yn llechu yn y llwyni.



*Hwyaden frongoch*

O'r ail guddfan cawsom olygfeydd gwych o griw bychan o **ylfinirod**, tri saer (**piod môr**), dau **rostog cynffonddu** efo'u pigau hirion syth a nifer fechan o **gor-hwyaid**. Ond yna, dyma 'styrbans eto, un o staff y warchodfa yn taflu fforcheidiau o hesg wrth glirio ymyl y llyn i'r dde inni. Fe gododd 7-8 saer, 20-30 o gor-hwyaid, criw da o goes-gochiaid a ryw hanner dwsin o giachod. Roedd yn amlwg bod llawer mwy o gwmpas na'r hyn oedd yn weladwy o'r guddfan.

Draw a ni i'r guddfan nesa', gan sylwi ar y ffordd ar **fwncath** yn troelli yn y pellter i gyfeiriad Conwy, **robin** yn tician yn flin o'r llwyni a **dryw** yn rhegi arnom. Da oedd cyfarfod â Glyn o Lanfairfechan yma. Mae'n aelod o Gymdeithas Ted ers blynyddoedd ac yn wirfoddolwr brwd yma yn y warchodfa, fel y bu efo'r gweilch y





*Gwyach bach*

pysgod ym Morfa Glaslyn a Morfa Dyfi. Roedd dipyn mwy i'w weld o'r guddfan hon: criw o tua dwsin o **chwiaid brongoch** yn chwarae/cystadlu yn y pwll ar y chwith ac un neu ddwy o **chwiaid danheddog** (ieir) ar eu cyrion, dau **filidowcar**, **gwyach bach**, dwy **chwadan gopog**, ryw hanner dwsin o **chwiaid gwylltion** a thua 60 o **gorn-chwiglod**. Ar y dde roedd criw bychan o **wylanod y gweunydd** a **gwylanod penwaig**, crëyr gwyn bach, 5 **gïach** ar ymyl yr hesg yn y pellter, un **chwadan lostfain** a haid o ryw 40 **pibydd y mawn** yn bwydo'n brysur.

Ond yr hyn a dar'odd ein llygaid (drwy'r telesgôps mae'n rhaid d'eud), oedd yr haid o adar bach yn bwydo ar lawr ym mhendraw'r cob neu'r bys hir o dir oedd yn ymestyn allan yn syth o'n blaenau hyd at ryw ¾ y ffordd i'r ochr bella' gan wahanu'r llyn bron yn ddau. Bu cryn graffu, yn enwedig wedi i Glyn ddweud bod haid fechan o linosiaid y mynydd wedi bod yma'n ddiweddar ymysg yr heidiau mwy o **linosiaid** cyffredin. Roedd yn anodd dweud i sicrwydd am eu bod yn bell ac yn symud yn ddi-ddiwedd ond mi fuaswn yn taeru bod un criw bychan yn eu mysg yn frithach a thywyllach na'r gweddill, efo'r gynffon fforchog fach dywyll i'w gweld o bryd i'w gilydd. Mae 'na nifer fechan o linosiaid y mynydd yn nythu ym mlaen Nant Ffrancon. Tybed ai rheiny oedden nhw neu rai eraill o ymhellach i'r gogledd? Cyn gadael dyma ddyrchafu ein golygon i'r Carneddau oedd dan eira yn y pellter a sylwi (drwy'r telesgôp) ar haid go fawr o socod eira yn glanio ar y coed oedd uwchlaw'r Afon Conwy.

Ar ôl tamaid o fwyd ymlaen a ni i ben pella'r llyn, heibio'r merlod busneslyd, at yr wylfan agored lle roeddem yn medru cuddio tu ôl i wal o 'styllod i edrych dros y llyn. Ar y gefnen o raean oedd yn ynys o'n blaenau dyma gyfri 40 **gylfinir**, 300 o goesgochiaid, rhai dwsinau o gornchwiglod yn clwydo a 18 o chwiaid brongoch a 5 chwadan bengoch ar y dŵr.

Ymlaen at lan yr Afon Conwy. Roedd yn ganol y p'nawn erbyn hyn â'r llanw wedi cuddio llaid yr aber. Un guddfan oedd ar ôl, a buom yno yn edrych o'r



*Llawer o adar yn clwydo tra'n disgwyl i'r llanw droi*



*Cornchwiglen, coesgoch, gïach a gylfinir*

cyfeiriad arall y tro hwn ar hyd y bys o dir, fel ryw gob anorffenedig, yr oeddem wedi edrych drosto gynnau o'r guddfan gyferbyn. Dim byd yn ychwanegol i'r hyn welwyd eisoes ond bu cryn graffu ar y llinosiaid – oedd wedi symyd i'r pen arall erbyn hyn ac yn weddol agos i'r guddfan lle buom yn pendroni yn eu cylch ynghynt! Roedd tua'r un nifer a chynt, ond llinosiaid cyffredin oedd y cyfan hyd y gwelwn a dim arlliw o linos y mynydd.

Roedd yr oerfel yn dechrau cydio erbyn hyn a braf oedd medru ymlwybro'n ôl i'r caffi am paned a chacen a chael cyfle i sbrowla drwy'r llyfrau ail law oedd ar werth. Diwrnod da iawn.

**Twm Elias**

*Lluniau: Huw Dafydd a Gareth*



*Dan, Dewi, Gareth, Haf, John Parry a Twm o flaen y guddfan bellaf (Huw y tu ôl i'r camera) "Am y caffi 'na rwan bawb!"*



*Yr olygfa o Fynydd Bodafon*

Roedd yn esgus da iawn i'r rhan fwya ohonom gael ymweld â rhan o Fôn oedd yn ddiarth inni, sef yr ardal rhwng Moelfre a Dulas. Eifion oedd yn ein harwain ac roedd yn dda hefyd cael Dr Gwen, un arall o'r Monwysion mwyn, i wneud yn siwr na fyddai neb yn mynd ar gyfeiliorn.

Gadael rhai o'r ceir yn y maes parcio di-dâl (wrth gwrs!) ym Moelfre a dilyn Eifion mewn dau gar arall i Fynydd Bodafon. "Mynydd?" gofynnodd Dewi – wedi arfer efo llefydd dipyn uwch na hyn y ardal Ffestiniog. Ond roedd o'n le hyfryd, ryw lwmp o greigan yn codi o dir gweddol wastad gogledd-ddwyrain Môn ac wedi ei gorchuddio â grug, eithin a ryw 'chydig o grawcwellt yma ag acw. Roedd yr olygfa o'r top yn wych – melinau gwynt Cemaes yn chwifio'u breichiau arnom ni, Llyn Alaw a Mynydd Tŵr, Caergybi y tu draw iddo yn y pellter i'r gorllewin, Ynys Seiriol i'r de a Thraeth Coch lle buom ar daith fythgofiadwy efo Dr Gwen yn Llanddona ryw flwyddyn yn ôl. I'r dwyrain Traeth Dulas ac Ynys Dulas efo'i thŵr godwyd fel lloches i forwyr gafodd ac a gaiff eu llongddryllio. Roedd gormod o darth i weld Eryri a'r Gogarth y bora 'ma ond fe gliriodd yn ddiweddarach, inni weld y Carneddau dan eira.

Roedd hi'n oer a'r gwynt yn fain iawn ar y copa. Ar y ffordd i fyny gwelsom babell weog rhyw lindys cymdeithasol yn llochesu'n ddyfn ym mhigau'r eithin ond 'chydig iawn o adar: **bwncath** yn sefyll yn ei unfan ar yr awel uwch ein pennau, **corhedydd** yn codi o'r crawcwellt mewn pant cysgodol yng nghanol y mynydd wrth inni



*Bwncath*



*Un o gytiau crynion mawreddog Din Llugwy*

gylchu yn ein holau, **pioden** yn y pellter a iâr **clochdar y cerrig** yng nghysgod y graig wrth inni gyrraedd y lle parcio. Ar y ffordd o'ma dyma weld dau **walch glas** yn uchel uwchben a dwy **frân** yn eu herlid.

I Din Llugwy nesa' -wel dyma safle anhygoel. At olion Capel Llugwy gynta', sy'n dyddio i'r 12fed ganrif ac yna draw at Din Llugwy ei hun sy'n un, os nad yr, enghraifft orau yng Nghymru o weddillion fferm Frythonig o'r cyfnod Rhufeinig. Mae'n safle enfawr ac mewn cyflwr rhyfeddol o dda o ystyried ei hoed gyda'i muriau o gerrig calch mawrion yn drawiadol iawn. Casgliad o anheddau crynion a chytiau/gweithdai sgwâr o fewn buarth amddiffynedig sydd yma ac mi fyddai'n fferm sylweddol yn ei dydd mae'n siwr.

Distaw am adar eto, ond ar ein taith o gwmpas y safleoedd hyn fe welsom **drudwennod**, haid fechan o **socod eira**, clywed **ffesant** yn clochdar (a gweld un yn codi'n syth dros y clawdd wrth yrru oddiyma). Wrth gerdded rownd muriau mawreddog Din Llugwy, ambell **robin**, **llwyd y gwrych**, **titw mawr** a haid fechan o ryw 5-6 o **ditŵod cynffon hir** yn y coed.

Ymlaen wedyn i Draeth Dulas a rhai'n manteisio ar y caffi yno i gael paned poeth. Roedd y gwynt o'r môr yn fain ond yr awyr yn gliriach erbyn hyn. Gadael y ceir yma a dilyn llwybr yr arfordir yn ôl am Foelfre. Ambell i **bioden fôr, bili dowcar** yn hedfan heibio, gwylanod, heidiau bychain o ddrudwennod dros y tir a fawr ddim arall. Ond be oedd i'w ddisgwyl tra bo gwynt oer o'r môr yn codi, os nad cesyg gwynion ond ebolion gwynion yn sicr, ar frig y tonnau. Roedd y calla' o'r adar wedi symyd i ochrau cysgodol yr ynys de'cini.

Ymhen sbel cyrraedd porth neu lanfa fechan oedd yn rhoi 'mbach mwy o gysgod. Yma roedd hanner dwsin o **hutanod** y traeth yn procio'r gwymon, **coesgoch**, a **gwylan gefnddu fwyaf** yn gorffwyso. "**Gwyach gopog**!" gwaeddodd rhywun, ac fan'no oedd o yn pysgota'n brysur – i fyny am ryw 'chydig eiliadau cyn plymio ac aros i lawr am yn agos i funud cyn codi eto bellter i ffwrdd. Fe wnaeth Gareth a Huw yn dda i gael lluniau ohono!

Yn ein blaenau gan basio creigiau Porth Alerth lle drylliwyd y Royal Charter yn Hydref 1859 gan golli oddeutu 450 o fywydau.

"Gareth! Un o dy rai di ydi hwnna!" **Cudyll coch** yn hedfan heibio a diflannu rownd y gornel. Cyn cyrraedd Moelfre sylwi ar tua 20 bilidowcar/**mulfran werdd** a chriw da o wylanod yn llochesu ar greigiau Ynys Moelfre gerllaw ac ar y traeth ar gyrion y pentre' tua 12-15 o hutanod a nifer fechan o biod môr. Roedd rhai o'r hutanod yn amlwg yn gyfarwydd â phobl am y daethant i fyny bron at ein traed.



*Gwyach gopog*



*Hutan y dŵr neu Gwtiad y traeth*

Rhaid oedd galw i ryfeddu at y Bâd Achub a thalu teyrnged i'r arwr Dic Evans a enillodd ddwy fedal aur yr RNLI am achub bywydau morwyr. Diolch Huw am yr englyn iddo. Dim caffi ar agor, felly i dafarn y Kinmel Arms am paned, ond 'doedd dim cacen gwaetha'r modd.

**Moelfre**

Gwêl lanw a'r gwylanod – yn hwylio'n
Nhawelwch y diwrnod,
A gwêl lain un gŵr a'i glod,
A'r cwch sy'n gwylio'r cychod.

*Huw Dafydd*



Wrth ei hel hi am y maes parcio dyma basio haid o rai dwsinau o **adar to** yn llechu mewn llwyn a chwmwl o wylanod yn codi dros y pentre'. Yn seiniau corws y gwylanod y bu inni adael Moelfre am Draeth Dulas i nôl y ceir cyn ei throi hi am adra – i gael y gacen 'na! Diolch Eifion am ddiwrnod da iawn.

**Twm Elias**

*Lluniau: Huw Dafydd a Gareth*

## RHAGLEN IONAWR-MEHEFIN 2017

Mae'n bwysig iawn eich bod yn edrych ar ein gwefan yn rheolaidd er mwyn cael y manylion diweddaraf am beth fydd yn digwydd. Yn well byth, anfonwch eich cyfeiriad e-bost i ni ac fe gewch neges amserol am bob digwyddiad (cyswllt pwllheli@gmail.com ).

**Ionawr 21**
Taith yn ardal **Y Foryd** dan arweiniad Twm Elias. Cyfarfod ym maes parcio Dinas Dinlle.

**Chwefror 14**
Noson Gymdeithasol yn y Plas

**Chwefror 25**
Taith yn ardal **Castell y Bere** a **Thywyn** dan arweiniad Huw Dafydd**.**
Cyfarfod yn y maes parcio ger y castell, cyfeirnod grid SH 669 087.

**Mawrth 14**
Sgwrs: "Adar De Affrica" gan **Rheon Pritchard** yn y Plas.

**Mawrth 25**
Taith yn ardal **Bangor** ac **Aber Ogwen.** Cyfarfod ger pier Bangor.

**Ebrill 4**
Sgwrs: "Gweilch y Glaslyn" gan **Gwenan Williams** yn y Plas.

**Ebrill 8**
Taith yn ardal **Afonwen.** Cyfarfod ger cylchfan yr hen Laundry.

**Ebrill 20**
Sgwrs: "Traddodiadau Adaryddol" gan **Twm Elias** yn y Plas.

**Ebrill 29**
Taith yn ardal **Blaenau Ffestiniog** dan arweiniad Dewi Jones.
Cyfarfod yn encilfan Coed Cymerau ar yr A496, cyfeirnod grid SH 693 431. LL41 4BN

**Mai 13**
Taith yn ardal **Cwm Nantcol** dan arweiniad Rhodri Dafydd.
Cyfarfod yn y maes parcio ger yr hen ysgol, cyfeirnod SH 624 263.

**Mai 27**
Taith yn ardal **Penrhyndeudraeth** dan arweiniad John Parry Williams.
Cyfarfod ym maes parcio Penrhyn.

**Mehefin 10**
Taith yn ardal **Trwyn Cilan/Pen Llŷn** dan arweiniad Gareth a Gwennan.
Cyfarfod ym maes parcio yr Ymddiriedolaeth Gen. ym Mynydd Cilan.

**Dechrau Awst**: Sir Fôn - Eisteddfod Genedlaethol Cymru (manylion i'w cadarnhau)
Sgwrs ym Mhabell y Cymdeithasau a thaith o gwmpas y Dingle, Llangefni.

**Teithiau yn cychwyn am 10.30yb. (oni nodir yn wahanol) a'r sgyrsiau am 7.30yh.**

**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk**